S4C

14.11.2019

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

# Erin Mai â'i 'Chalon yn Curo' wrth edrych ymlaen at Junior Eurovision

Cyn i gyffro'r Nadolig ein hamgylchynu ar derfyn blwyddyn arall, mae taith arbennig un ferch o Lanrwst i gynrychioli Cymru ar y gorwel. Dim ond un dymuniad sydd gan Erin Mai, a'r dymuniad hwnnw ydi i wneud ei gorau glas dros Gymru ar lwyfan Junior Eurovision.

Ar ôl ennill y gyfres deledu boblogaidd **Chwilio am Seren Junior Eurovision** yn gynharach eleni, mae Erin Mai, 14 oed, ar fin cyrraedd uchafbwynt ei thaith. Bydd ffeinal y gystadleuaeth fawr yn cael ei chynnal yn Gliwice, Gwlad Pŵyl ar 24 Tachwedd, gyda chynulleidfa o filiynau ar hyd a lled Ewrop am fod yn tiwnio mewn i wylio'r cystadlu.

Bydd holl gyffro'r digwyddiad ar gael i'w wylio yn fyw ar S4C ar **Junior Eurovision: Y Ffeinal** yng nghwmni Trystan Ellis-Morris fydd yn lleisio'r cyfan o 3 o'r gloch ymlaen.

"Mae'r holl brofiad fel breuddwyd wedi dod yn wir. Nes i fyth meddwl faswn i ar fy ffordd i ffeinal y Junior Eurovision pan wnes i gamu i mewn i fy nghlyweliad cyntaf ar raglen **Chwilio am Seren Junior Eurovision**," meddai Erin Mai, sy'n ddisgybl yn ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst.

Bydd Erin yn cystadlu yn erbyn 18 o wledydd eraill Ewrop ac yn canu cân sydd wedi cael ei chyfansoddi yn arbennig ar gyfer y gystadleuaeth, *Calon yn Curo*. Bydd y gystadleuaeth yn cael ei darlledu i gynulleidfa o filiynau ar hyd a lled y byd.

"Bydd o'n wahanol iawn i berfformio ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd, yn sicr! Dwi 'rioed 'di canu o flaen gymaint o bobl â hynny o'r blaen! Fydd fy *nghalon yn curo* – dwi'n edrych ymlaen yn ofnadwy i gamu ar lwyfan Junior Eurovision, ond dwi'n teimlo mor nerfus hefyd ar yr un pryd.

"Mae'r gân *Calon yn Curo* yn sôn am goncro dy ofnau – a dyna'n union dwi'n gobeithio fyddai'n ei wneud. Dwi am fwynhau y profiad – mae o'n brofiad unwaith mewn oes!"

Erbyn hyn, mae perfformiad Erin Mai o'r gan *Calon yn Curo* wedi cael ei wylio dros 100 mil o weithiau ar YouTube.

"Can mil? Dwi methu credu'r bod gymaint â hynny wedi fy ngwylio fi yn perfformio! Gobeithio gwneith y can mil hynny bleidleisio dros Gymru ar benwythnos y gystadleuaeth!"

"Mwynhau sy'n bwysig, ac os nai wneud pobl Cymru yn hapus, yna fyddai'n teimlo fel fy mod wedi llwyddo, dio'r otsh be' 'di'r canlyniad! Ond plis cofiwch bleidleisio dros Gymru!" ychwanegodd Erin.

Cyn y gystadleuaeth fyw, bydd cyfle i'r gwylwyr olrhain taith Erin Mai o'i chyfweliad cyntaf draw yn Venue Cymru, Llandudno i Gliwice, Gwlad Pŵyl ar gyfer cystadleuaeth fawr y Junior Eurovision. Bydd y rhaglen arbennig **Erin yn Ewrop** ymlaen ar S4C nos Sadwrn, 23 Tachwedd am 7.15.

Cofiwch wylio holl gyffro'r cystadlu ar S4C prynhawn Sul, 24 Tachwedd. I bleidleisio, ewch i wefan Junior Eurovision ar junioreurovision.tv/voting. Bydd y bleidlais yn agor am 19.00 GMT ar nos Wener 22 Tachwedd.

**Junior Eurovision: Y Ffeinal**
**Prynhawn Sul 24 Tachwedd 3.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo ar gyfer S4C**

19.09.2018

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

# Erin Mai looking forward to performing in front of millions on Junior Eurovision stage

Before the festivities of the Christmas period wrap around us yet again, a young girl's magical journey to represent Wales is on the horizon. Erin Mai from Llanrwst has only one wish at the end of 2019, and that wish is to do her very best for Wales on the Junior Eurovision stage.

After winning the popular S4C series **Chwilio am Seren Junior Eurovision** earlier this year and gaining her ticket to represent Wales on the Junior Eurovision stage, Erin Mai, 14, is looking forward to reaching the pinnacle of her journey. The competition is held in Gliwice, Poland on 24 November, with an audience of millions across the globe set to tune in to watch the event.

All the action will be available to watch live on S4C on **Junior Eurovision: Y Ffeinal** from 3 pm.

"The whole experience has been like a dream come true. I never imagined that I'd be on my way to the Junior Eurovision final when I walked into my first audition on **Chwilio am Seren Junior Eurovision**," said Erin Mai, who attends Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst.

Erin will be competing against 18 other European countries and she'll be singing a song that has been specially composed for the competition, *Calon yn Curo*, which means 'Heart Beating' in Welsh.

"It will be very different from performing on stage at the Urdd Eisteddfod, I'll tell you that! I've never performed in front of so many people. Just like the song, my heart will definitely be beating very fast. I'm looking forward to stepping onto the Junior Eurovision stage, but I feel very nervous at the same time.

"But *Calon yn Curo* is about conquering your fears – and that's exactly what I'm hoping to do. I'm going to enjoy the experience – it's a once in a lifetime opportunity!"

Videos of Erin Mai performing *Calon yn Curo* have already reached more than 100,000 views on YouTube.

"100,000? I can't believe that so many have watched me perform! Let's just hope that the 100,000 will vote for Wales over the weekend of the competition."

"The most important thing is to enjoy myself, and if I make the people of Wales happy, then I'll feel like I have succeeded, it doesn't matter what the result will be. But please remember to vote for Wales!" added Erin.

Before the live competition, there's a chance for viewers to look back on Erin Mai's journey, from her first interview at Venue Cymru to her trip to Gliwice, Poland for the big competition. The special programme, **Erin yn Ewrop** broadcasts on S4C on Saturday, 23 November at 7.15 pm.

Remember to watch all the excitement of the competition on S4C on Sunday afternoon, 24 November. To vote, visit the Junior Eurovision website on junioreurovision.tv/voting. Voting opens at 19.00 GMT on Friday, 22 November.

**Junior Eurovision: Y Ffeinal**
**Sunday afternoon 24 November 3.00, S4C**
**English subtitles**
**On demand: S4C Clic; BBC iPlayer and other platforms**
**A Rondo production for S4C**